Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Y Gamfa Wen**
**Y Drindod Dewi Sant**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Y Gamfa Wen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa y Gamfa Wen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person cofrestredig | Jane O'Rourke |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jane O'Rourke |
| Person â gofal | Caryl Evans a Heulwen Thomas |
| Nifer y lleoedd | 52 |
| Amrediad oedran y plant | 0-8 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 1 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 08:00-18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 05/12/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/06/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â goruchwylio a gwerthuso gwaith y personau â gofal yn briodol (rheoliad 29 (3)(a)) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid yw’r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y personau â gofal yn cael sesiynau goruchwylio a rheoli perfformiad rheolaidd. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau datrys problemau plant

A2 Sicrhau cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan blant a’r rheini sy’n cael eu harwain gan oedolion

A3 Datblygu’r ddarpariaeth barhaus yn yr ardal allanol

A4 Mynd i’r afael â’r mater o ddiffyg cydymffurio

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd AGC ac Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent wedi meithrin ymlyniadau cadarn gyda'u gweithwyr allweddol a'r ymarferwyr eraill ac wrth eu bodd yn eu cwmni. Er enghraifft, cofleidiodd ychydig o'r plant ei gilydd a'r ymarferwyr yn hapus gan chwerthin wrth wneud. Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn ymateb yn dda iawn i oedolion ac ymwelwyr unwaith y maent wedi cyfarwyddo gyda nhw. Mae rhan fwyaf y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a hynny'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol.

Mae gan bron pob plentyn lais priodol am yr hyn maent am ddysgu neu chwarae. Cânt ddewis pa ganeuon y maent eisiau eu canu yn ystod amser cylch ac mae'r babanod yn gallu rholio dis i benderfynu pa gân i'w ganu. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud penderfyniadau ynghylch eu chwarae yn ystod chwarae rydd a gallant fynd at deganau o'u dewis yn rhwydd. Er enghraifft, yn yr ardal allanol penderfynodd plentyn ei fod eisiau gwneud cawl yn y gegin fwd ac fe gydweithiodd yn dda gyda phlant eraill wrth wneud. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r plant yn cael digon o lais o safbwynt strwythur eu chwarae. Er enghraifft, ychydig cyn amser cinio gwnaeth ymarferwr symud '*tuff tray'* pan oedd plentyn yn mwynhau'r chwarae. Cydymffurfiodd y plentyn yn rhwydd ac aeth i chwarae gyda thegan arall er gwaetha'r ffaith mai nid dyna oedd ei dewis cyntaf.

Mae llawer o blant yn dysgu i fod yn wydn ac nid ydynt yn gadael i unrhyw beth amharu ar yr hyn maent eisiau ei wneud. Er enghraifft, cododd un plentyn o'r llawr ar ôl baglu a pharhau i fynd â'i siaced i'w ddrôr yn hollol ddiffwdan ac annibynnol. Adeg bwyd, pan gânt gyfle i dywallt llaeth neu ddŵr, mae rhan fwyaf y plant yn medru gwneud hynny gyda chymorth ond nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd er mwyn iddynt fedru datblygu'r sgiliau ymhellach.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda. Maent yn dangos parch, yn rhannu adnoddau ac yn dechrau cymryd eu tro yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y plant yn ymfalchïo yn llwyddiannau ei gilydd. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn cynorthwyo plant newydd ac yn dangos iddynt sut i roi eu llun ar y bwrdd hunan-gofrestru. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Wrth i blant adael am yr ysgol, mae'r gweddill yn chwifio hwyl fawr yn gwrtais arnynt. Mae amser bwyd yn rhoi cyfle i bron bob plentyn gymdeithasu'n effeithiol gyda'i gilydd ac mae llawer yn dweud 'plîs' a 'diolch' ar ôl iddynt gael eu hatgoffa. Mae gan ychydig o blant batrymau iaith cadarn iawn ac maent yn gallu holi yn hyderus am ragor o fwyd neu ddiod. Er enghraifft, amser byrbryd gofynnodd plentyn, 'Ga' i fwy o laeth plîs?'. Mae sgiliau cymdeithasol y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn sgwrsio'n naturiol gyda'i gilydd ac yn gallu disgrifio profiadau. Er enghraifft, amser snac soniodd un plentyn wrth ei ffrindiau am y tân gwyllt a welodd y noson gynt gan ddweud 'Roced wedi mynd lan yr awyr'; 'Sŵn uchel' a 'Gole'.

Mae gan ran fwyaf y plant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau i'w helpu i gadw'n heini ac yn cael cyfle i wneud hynny yn rheolaidd yn y ganolfan hamdden. Maent yn deall pwysigrwydd golchi dwylo ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud hyn yn annibynnol cyn amser bwyd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio iaith gyfarwydd yn gywir wrth gyfarch ei gilydd ac i fynegi eu teimladau. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar oedolion ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus, yn enwedig wrth iddynt ganu a dawnsio i ganeuon a rhigymau cyfarwydd. Er bod lleiafrif y plant yn siarad Cymraeg yn rhugl wrth ddechrau yn y lleoliad, mae llawer yn defnyddio ystod addas o eirfa yn briodol wrth gyfathrebu ac i drafod eu teimladau.

Mae llawer o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin fel darllenwyr. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau gwrando ar stori a ddarllenir iddynt am gyfnodau estynedig a llawer yn ymateb yn dda i gwestiynau am ei chynnwys. Mae sgiliau ysgrifennu llawer o'r plant yn datblygu'n gadarn, er enghraifft, gwnaeth y rhan fwyaf lwyddo i greu marciau syml yn annibynnol yn yr ardal fathemateg a chreu "R" am roced yn y eli siafio.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus gyda'r mwyafrif yn gallu cyfatebu hyd at bump gan ddefnyddio'u bysedd. Mae rhan fwyaf y plant yn ymuno mewn caneuon rhif ac yn gallu cyfri nifer y plant yn yr ystafell yn llwyddiannus. Mae llawer yn gallu defnyddio termau mathemategol fel mawr a bach yn briodol, er enghraifft wrth gyfri mwydod yn y pridd. Maent yn enwi a chyfatebu siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn llwyddiannus wrth chwilio am siapiau yn yr ardal allanol. Pan maent yn cael cyfle, mae lleiafrif o blant yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn briodol. Er enghraifft, gwnaeth plentyn adnabod ei hun fel helpwr y dydd am mai fe oedd yn gwisgo esgidiau glas a thop streipïog. Fodd bynnag, nid yw'r medrau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae medrau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarnhaol wrth iddynt ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi eu dysgu. Maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol a chamera'n llwyddiannus i dynnu lluniau yn yr ardal adeiladu. Mae eu sgiliau rheoli llygoden i baentio llun ar y cyfrifiadur yn datblygu'n llwyddiannus, ac mae'r rhan fwyaf yn rheoli tegan rhaglenadwy yn hyderus gyda chymorth ymarferwr.

Mae medrau corfforol rhan fwyaf y plant yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer mân yn hyderus, er enghraifft wrth dorri allan o gatalogau gan ddefnyddio siswrn yn ofalus. Mae bron pob un yn symud a dawnsio yn hyderus i gerddoriaeth ac yn rheoli eu cyrff yn llwyddiannus i greu siapiau perthnasol, er enghraifft trwy ymestyn yn hir fel roced. Yn ogystal, mae medrau creadigol llawer o'r plant yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt ymgymryd mewn amrywiaeth o weithgareddau fel defnyddio gwahanol gyfryngau i greu lluniau i'w harddangos ar y waliau.

Mae medrau personol cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n gryf. Maent yn rhyngweithio'n naturiol gyda'r ymarferwyr a gyda'i gilydd yn ystod gweithgareddau digymell a ffocws. Mae rhan fwyaf y plant yn gallu mynegi eu teimladau trwy ddweud os ydynt yn hapus neu'n drist.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan y personau â gofal weithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer cadw plant yn iach a diogel. Mae ganddynt bolisi diogelu pwrpasol, mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant cyson ac mae pob un yn hollol hyderus o ran y weithdrefn i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am unrhyw blentyn. Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau diogelwch tân ac mae'r ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd iawn er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn ymwybodol o'r drefn i'w dilyn mewn argyfwng. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gael ar ddiwedd y dydd i sicrhau bod y plant yn gadael gyda rhiant neu ofalwr cydnabyddedig. Mae rhan fwyaf yr ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn iawn ac mae ganddynt dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol a pherthnasol. Maent yn cwblhau ffurflenni damweiniau a digwyddiadau yn amserol ac mae eu gweithdrefnau o ran gweini meddyginiaethau bellach yn gadarn iawn. Maent hefyd yn dilyn y polisi newid cewyn yn effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r personau â gofal wedi sicrhau bod bwydlen gytbwys yn ei lle ar gyfer y plant ac wedi cydweithio'n effeithiol gyda dietegydd i sicrhau'r arferion gorau o ran bwyta'n iach. Mae'r plant yn cael dŵr neu laeth amser bwyd ac mae'r poteli dŵr wedi'u labelu ac ar gael iddynt gydol y dydd. Er hynny, nid yw ymarferwyr bob amser yn annog pob plentyn i yfed digon yn ystod y dydd.

Mae gan fwyafrif yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut a phryd i ymyrryd mewn gweithgareddau neu sgyrsiau i ddatblygu ac ymestyn chwarae a dysgu'r plant. Er enghraifft, perswadiodd ymarferwr blentyn i gadw tegan gan esbonio y gallai plentyn ifanc gwympo os na fyddai'n gwneud hynny. Mae'r ymarferwyr yn darparu gofal ymatebol ac yn cynllunio'n fanwl ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau priodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn cynllunio digon o gyfleoedd effeithiol i'r plant ddysgu drostynt eu hunain. Mae llawer o'r ymarferwyr yn dueddol o wneud gormod dros y plant amser bwyd. O ganlyniad, nid yw'r plant bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibyniaeth. Er enghraifft, amser cinio roedd lleiafrif o'r ymarferwyr yn ymyrryd i helpu'r plant i arllwys diodydd neu i roi pys ar y plât, a hynny heb roi digon o gyfle iddynt roi cynnig arni eu hunain ac roedd elfen o frysio yn bodoli.

Mae gan y lleoliad drefniadau da iawn ar gyfer rheoli ymddygiad plant yn effeithiol ac mae rhan fwyaf yr ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Maent yn annog ymddygiad cadarnhaol mewn modd sensitif a thawel wrth reoli ymddygiad plant ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae'r plant yn ymddwyn. Er enghraifft, roedd ymarferwr yn sgwrsio'n hamddenol gyda phlentyn wrth i'r plentyn aros yn amyneddgar iawn am ei dro i gael defnyddio teclyn rheoli. Mae rhan fwyaf yr ymarferwyr yn canmol plant yn rheolaidd.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae perthynas waith hyfryd rhwng y plant a'r holl ymarferwyr. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol gyda'r plant trwy ddangos diddordeb mawr yn yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, er enghraifft wrth siarad am esgidiau newydd plentyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac maent yn modelu

iaith raenus trwy gydol y dydd. Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant trwy ddefnyddio caneuon i atgyfnerthu a chyflwyno geirfa a phatrymau newydd. Er enghraifft, trwy ganu 'fel hyn i ni yn brwsio dannedd' cyn golchi dannedd a chanu am y tywydd yn ystod sesiynau torfol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau buddiol er mwyn sicrhau bod plant yn ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn rheolaidd ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Maent yn cofnodi'r medrau sy'n cael eu datblygu ar gyfer pob gweithgaredd yn eu cynlluniau. Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiynau ac yn annog plant i ymuno mewn caneuon a thrafodaethau yn rheolaidd. Maent hefyd yn ymweld â chanolfan deledu leol yn rheolaidd i gael stori gan gymeriadau teledu adnabyddus yn y Gymraeg er mwyn cyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu dealltwriaeth dda o'r byd maent yn byw ynddo trwy wneud defnydd effeithiol o'r ardal leol. Er enghraifft, wrth fynd â'r plant am dro i hel mwyar duon a chasglu dail a thrwy wahodd y frigâd dân i ymweld â'r lleoliad i ymestyn eu dealltwriaeth o bobl sy'n ein helpu. Mae'r holl ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu symbylus a chwaethus ar gyfer y plant. Yn gyffredinol, maent yn annog iddynt wneud penderfyniadau a darganfod drostynt eu hunain wrth ymgymryd mewn tasgau ffocws priodol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr pob tro yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd a gweithgareddau a arweinir gan blant. O ganlyniad, nid ydynt yn annog y plant i ymgymryd mewn gweithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus yn gwbl annibynnol ac i ddatrys problemau eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn fwriadus. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu am ddiwylliannau eraill, er enghraifft trwy ymgymryd mewn gweithgareddau yn seiliedig ar ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Maent yn cynnig cyfleoedd da i blant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig, er enghraifft trwy wisgo coch neu wisg Gymreig ar ddiwrnod Dewi Sant a chael cyfle i ddysgu am Ddewi Sant trwy wrando ar stori, canu a lliwio.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau corfforol a chreadigol y plant trwy gynnig ystod addas o brofiadau gwerthfawr iddynt. Er enghraifft, drwy ymgymryd mewn sesiynau symud a dawnsio ac wrth greu gwaith celf eu hunain ar ffurf artist penodol.

Mae gan y lleoliad drefniadau asesu cadarn sy'n eu galluogi i olrhain cynnydd medrau'r plant yn dda ac yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o ganfyddiadau asesu i sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu datblygu'n llwyddiannus ar draws yr holl meysydd dysgu.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd diogel, glân, deniadol a chroesawgar sy'n cefnogi datblygiad y plant yn effeithiol. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac yn cynnwys arddangosfeydd pwrpasol sy'n atgyfnerthu'r dysgu ac yn dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Maent hefyd yn atgyfnerthu cynllunio'r ymarferwyr yn dda, er enghraifft mae rhifedd a geirfa allweddol sy'n codi o'r themâu yn cael sylw teilwng yn yr ystafelloedd.

Mae gan y rheolwyr a'r ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn iawn o faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae'r personau â gofal yn sicrhau bod asesiadau risg eang wedi'u cwblhau ac mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o'r risg sy'n berthnasol i'w hardaloedd a'r amgylchedd yn ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau risg bob amser yn mynd i fanylder am weithgareddau chwarae blêr sy'n defnyddio bwydydd megis spaghetti ac eli siafio.

Mae'r adeilad yn ddiogel iawn ac mae'r personau â gofal a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau yn rheolaidd. Mae'r personau â gofal yn cadw'r holl ddogfennau o safbwynt gwiriadau diogelwch y safle yn drefnus iawn ac mae eu hymwybyddiaeth yn dda iawn yn hynny o beth.

Mae'r amgylchedd y tu mewn yn cefnogi'r dysgu yn dda. Maent yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd da i blant ymchwilio ac i ddysgu. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr wedi sefydlu corneli ac ardaloedd dysgu effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant o bob oed i ddatblygu eu medrau. Mae mwyafrif yr ardaloedd yn cynnwys offer gwneud marciau pwrpasol ac offer TGCh. Er enghraifft, mae camera digidol yn yr ardal adeiladu a phegiau siarad yn y byd bach. Mae dewis o ardaloedd dysgu amrywiol gan gynnwys cornel ddarllen, cornel creadigol, cornel berfformio a chornel adeiladu. Mae'r arddangosfeydd pwrpasol yn arddangos ac yn dathlu gwaith y plant yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol yn cynnig digon o weithgareddau ac adnoddau sy'n gallu cael eu defnyddio'n annibynnol gan blant.

Mae'r amgylchedd yn cynnig ystafelloedd pwrpasol sy'n addas ar gyfer sgyrsiau preifat gyda rhieni, ymwelwyr neu ymarferwyr gan gynnwys ystafell ar wahân a swyddfa.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth eang o ddodrefn safonol y tu fewn gan gynnwys byrddau a chadeiriau pren o wahanol feintiau sy'n galluogi i'r plant, gan gynnwys y babanod, i eistedd o amgylch y bwrdd i gael bwyd. Mae yno hefyd ystafell ar wahân hyfryd i fabanod gael tawelwch i gysgu.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Yn yr amser byr ers i'r personau â gofal gael eu penodi, maent wedi creu ymdeimlad hapus a gweithgar ar draws y lleoliad. Maent yn frwdfrydig a chydwybodol ac mae'r ymarferwyr yn eu canmol am eu harweiniad a'u cefnogaeth. Mae'r personau â gofal yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi Mae hyn yn cael effaith gadarn ar waith bron pob un o'r ymarferwyr ac maent yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd. .

Mae Datganiad o Ddiben cyfredol a phwrpasol yn ei le sy'n cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i alluogi rhieni wneud dewis am y gofal i'w plant.

Mae'r personau â gofal yn gwneud defnydd priodol o brosesau hunanwerthuso addas er mwyn adnabod yr hyn maent yn gwneud yn dda a'r meysydd sydd angen gwelliant. Maent yn canfod barn ymarferwyr a rhieni'n briodol. Er hynny, mewn lleiafrif o achosion, nid ydynt yn llwyddo i adnabod pob maes ar gyfer gwella mewn modd amserol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau perthnasol er

mwyn prynu adnoddau ac i wireddi targedau'r cynllun gwella, er enghraifft trwy brynu adnoddau TGCh a llyfrau er mwyn datblygu medrau llafar y plant.

Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod ymarferwyr parhaol ac addas yn gweithio yn y lleoliad gyda chymwysterau priodol. Maent yn eu hannog a'u cefnogi i fynychu hyfforddiant perthnasol yn eu tro i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am arferion gorau cyfredol gan gynnwys hyfforddiant ar elfennau o addysgeg y cyfnod sylfaen, paratoi bwydydd iach a chymorth cyntaf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, deilliannau'r plant a'u lles.

Mae'r rheolwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio gyda'r ymarferwyr yn dymhorol ac yn cynnal sesiynau gwerthuso'n flynyddol. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion. Fodd bynnag, nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer cynnal sesiynau goruchwylio gyda'r personau â gofal. Yn ogystal, nid yw gweithdrefnau gweinyddol yr unigolyn cyfrifol bob amser yn cydymffurfio'n llwyr gyda phob rheoliad.

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Mae'r berthynas gref gyda rhieni yn cael ei atgyfnerthu'n effeithiol trwy gyfathrebu pwrpasol sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth cyfredol o gynnydd eu plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno llyfr cofnod defnyddiol o ddatblygiad eu plant wrth iddynt symud o un cyfnod i'r llall o fewn y feithrinfa. Yn ogystal, mae polisi drws agored mewn lle sy'n galluogi rhieni i gwrdd a thrafod unrhyw fater gyda'r ymarferwyr yn ddyddiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2020